# MANIFFESTO HAWLIAU DYNOL

## Cymru 2026

Cynigion Amnesty International UK
ar gyfer llywodraeth nesaf Cymru

AMNESTY INTERNATIONAL

## Cyflwyniad

Ers etholiad diwethaf y Senedd, mae pwysau ar safonau byw wedi dwysáu ac mae anghydraddoldeb wedi lledu. Mae bywyd wedi mynd yn anoddach, gan adael llawer o bobl yn stryffaglu i sicrhau'r hanfodion sydd eu hangen er mwyn byw'n urddasol. Ond nid yw'r pethau hyn yn anochel. Maen nhw'n deillio o ddewisiadau gwleidyddol.

Canfu ymchwiliad gan Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hawliau Dynol yn 2025 fod torri hawliau yn realiti bywyd bob dydd yng Nghymru.[1]

Mae hyn yn cynnwys tlodi a nawdd cymdeithasol annigonol, ochr yn ochr â rhwystrau rhag cael mynediad at ofal iechyd, tai digonol, addysg a chyfiawnder. Mae gwahaniaethu uniongyrchol ac anuniongyrchol, mewn cymdeithas ac mewn systemau, yn gweithredu ymhellach i wadu hawliau menywod, pobl ag anableddau, a phobl hil-ddiffiniedig.

Wrth i etholiad y Senedd 2026 agosáu, mae'r hinsawdd wleidyddol gartref ac yn rhyngwladol yn cael ei llunio gan awdurdodyddiaeth ac ymrannu cynyddol. Ceir naratifau sy'n ein gosod ni yn erbyn ein cymdogion ac sy'n ceisio ailysgrifennu'r rheolau ynghylch hawliau a bywydau pwy sy'n haeddu cael eu gwarchod.

Nid naratif newydd mo hwn. Yn lle ymdrin â thlodi cynyddol, anghydraddoldeb, yr argyfwng tai, a chostau byw sy'n saethu i fyny – yn lle amddiffyn ein hawliau sylfaenol – mae'r bai'n cael ei drosglwyddo i'r sawl sydd fwyaf mewn angen.

Ac eto, mewn cymunedau ledled Cymru, mae pobl yn gwybod nad yw anghyfiawnder a gwadu urddas yn anochel. Canfu polau piniwn yn ddiweddar fod mwy nag wyth o bob 10 oedolyn yn dweud bod amddiffyniadau hawliau dynol yr un mor bwysig neu'n bwysicach heddiw nag yr oeddent pan grëwyd y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ar ôl yr Ail Ryfel Byd.[2]

Mae Amnest yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru a'r Senedd i hyrwyddo hawliau dynol. Rydym wedi nodi tair blaenoriaeth allweddol ar gyfer llywodraeth nesaf Cymru er mwyn amddiffyn ac ehangu hawliau dynol, gartref a thramor.

Os ydym eisiau Cymru sy'n gwerthfawrogi urddas, cydraddoldeb a chyfiawnder, mae angen i lywodraeth nesaf Cymru flaenoriaethu hawliau dynol fel y sylfaen ar gyfer sicrhau dyfodol tecach i bawb.

## Anogwn lywodraeth nesaf Cymru i:

- Gyflwyno deddf hawliau dynol ar gyfer Cymru.
- Cefnogi hawliau dynol trwy gaffael cyhoeddus a buddsoddi.
- Hyrwyddo a diogelu hawliau dynol yn rhyngwladol.

### AMNEST CYMRU

**Mae Amnesty International yn fudiad byd-eang o fwy na 10 miliwn o bobl sydd wedi ymrwymo i greu dyfodol lle mae hawliau dynol yn perthyn i bawb. Cawn ein uno gan ein dynoliaeth, ac rydym yn gwybod bod y pŵer i greu newid cadarnhaol o fewn pob un ohonom.**

**Mae Amnest Cymru'n gweithio'n lleol ac yn genedlaethol. Rydym yn gweithio gyda llywodraeth Cymru, y Senedd, a sefydliadau ac mae grwpiau Amnest lleol yn ymgyrchu mewn cymunedau ledled Cymru. Gyda'n gilydd, rydym yn ymgyrchu i atgyfnerthu hawliau dynol.**

## Deddf hawliau dynol ar gyfer Cymru

**Dylai llywodraeth nesaf Cymru:**

- Gyflwyno deddf hawliau dynol ar gyfer Cymru er mwyn ymgorffori hawliau y cytunwyd arnynt yn rhyngwladol yng nghyfraith Cymru.
- Gosod dyletswyddau clir, gorfodadwy ar gyrff cyhoeddus yng Nghymru i barchu, amddiffyn a gwireddu hawliau dynol.
- Sicrhau bod amddiffyniadau mor gryf â phosibl o fewn cymhwysedd datganoledig.

Ymrwymodd llywodraeth ddiwethaf Cymru i ymgorffori Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau Pobl ag Anableddau a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Gwahaniaethu yn erbyn Menywod yng nghyfraith Cymru.[3] Fodd bynnag, methodd llywodraeth Cymru gyflwyno deddfwriaeth i gyflawni'r ymrwymiad hwn.

Galwodd ymchwiliad gan Grŵp Trawsbleidiol y Senedd ar Hawliau Dynol ar lywodraeth nesaf Cymru

i fynd ymhellach a chyflwyno deddf hawliau dynol ar gyfer Cymru er mwyn cryfhau rhwyd ddiogelwch yr amddiffyniadau cyfreithiol ar gyfer ein hawliau bob dydd wrth ymgorffori:

- Y Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol (ICESCR)
- Y Confensiwn ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu yn erbyn Menywod (CEDAW)
- Y Confensiwn Rhyngwladol ar Ddileu Pob Math o Wahaniaethu Hiliol (ICERD)
- Y Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau (CRPD)
- Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CRC)

Byddai deddf hawliau dynol ar gyfer Cymru yn rhoi urddas, tegwch a chydraddoldeb wrth wraidd gwneud penderfyniadau, a darparu llwybrau ystyrlon at gyfiawnder pan fydd hawliau pobl yn cael eu torri.

## Cefnogi hawliau dynol drwy gaffael cyhoeddus a buddsoddi

**Dylai llywodraeth nesaf Cymru:**
- Gyflwyno gwiriadau hawliau dynol ar draws caffael cyhoeddus a buddsoddi yng Nghymru.
- Atal caffael a buddsoddi sy'n ymwneud â chwmnïau a restrir yn adroddiad Rapporteur Arbennig y Cenhedloedd Unedig ar sefyllfa hawliau dynol yn Nhiriogaeth Feddianedig Palesteina[4] a chronfa ddata'r Cenhedloedd Unedig o gwmnïau sy'n cyfrannu at aneddiadau anghyfreithlon[5].
- Gweithio gydag awdurdodau lleol yng Nghymru i sicrhau buddsoddi moesegol sy'n cefnogi hawliau dynol ar gyfer pensiynau'r sector cyhoeddus.

Mae gan lywodraeth Cymru ddyletswydd gyfreithiol i weithredu gyda chyfrifoldeb byd-eang. Dylid a rhaid gwneud penderfyniadau ar grantiau, buddsoddiadau a chaffael mewn ffordd sy'n cefnogi llesiant byd-eang.

Ni ddylid defnyddio arian cyhoeddus yng Nghymru i gefnogi cwmnïau sy'n cyfrannu at hil-laddiad, apartheid neu feddiannaeth anghyfreithlon gan Israel. Er hyn, mae ymchwil gan Amnesty a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025 yn dangos y cafodd grant o £500,000 ei ddyfarnu gan lywodraeth Cymru i gwmni sy'n allforio arfau i Israel[6]. Yn dilyn y datgeliad hwn, cysylltodd cannoedd o bobl â'u Haelodau o'r Senedd i fynnu cyfiawnder i'r Palestiniaid a chamau gweithredu gan lywodraeth Cymru.

## Hyrwyddo a diogelu hawliau dynol yn rhyngwladol

**Dylai llywodraeth nesaf Cymru:**
- Gyhoeddi strategaeth i gefnogi amddiffynwyr hawliau dynol yn rhyngwladol drwy berthnasoedd a phartneriaethau presennol a rhai sy'n cael eu datblygu.
- Blaenoriaethu'r sawl sydd fwyaf mewn perygl, gan gynnwys menywod, arweinwyr brodorol, amddiffynwyr amgylcheddol, a phobl LHDTRh+.
- Hyrwyddo'n weithredol hawliau menywod, hawliau LHDTRh+, a hawliau rhywiol ac atgenhedlu mewn ymgysylltiadau rhyngwladol.

Er bod materion tramor wedi'u cadw'n ôl, mae'r prif weinidog yn cymryd cyfrifoldeb dros ymgysylltu rhyngwladol a chyflawni Strategaeth Ryngwladol llywodraeth Cymru. Mae Amnesty International yn galw ar lywodraeth nesaf Cymru i flaenoriaethu diogelu amddiffynwyr hawliau dynol a sicrhau bod ymgysylltu rhyngwladol yn atgyfnerthu hawliau dynol yn hytrach na'u tanseilio.

Ledled y byd, mae cynnydd digynsail mewn ymosodiadau yn erbyn amddiffynwyr hawliau dynol – sef pobl sy'n amddiffyn ac yn hyrwyddo hawliau dynol. Dylai llywodraeth Cymru, trwy strategaeth bwrpasol a'i phartneriaethau presennol, gymryd camau i amddiffyn a chefnogi amddiffynwyr hawliau dynol.

## NODIADAU TERFYNOL

1 Progress on Human Rights in Wales: Inquiry Report 2025, **www.amnesty.org.uk/resources/progress-human-rights-wales-inquiry-report-2025**

2 'Never Again' still matters – public backs ECHR, **www.amnesty.org.uk/latest/never-again-still-matters-public-backs-echr-21-politicians-threaten-exit/**

3 Rhaglen lywodraethu: diweddariad, **www.llyw.cymru/rhaglen-lywodraethu-diweddariad**

4 2025: From Economy of Occupation to Economy of Genocide, **https://www.un.org/unispal/document/a-hrc-59-23-from-economy-of-occupation-to-economy-of-genocide-report-special-rapporteur-francesca-albanese-palestine-2025/**

5 UN Human Rights Office updates database of businesses involved in Israeli settlements in occupied West Bank, **www.ohchr.org/en/press-releases/2025/09/un-human-rights-office-updates-database-businesses-involved-israeli**

6 Welsh Government accused of funding weapons supplier that exports arms to Israel, **https://nation.cymru/news/welsh-government-accused-of-funding-weapons-supplier-that-exports-arms-to-israel/**

Amnesty International UK – Swyddfa Cymru
Tramshed Tech
Grangetown
Caerdydd
CF11 6BH
**glenn.page@amnesty.org.uk**

**amnesty.org.uk/amnesty-in-wales**

AMNESTY INTERNATIONAL